

St Gwyddelan's

Bu i Eglwys Sant Gwyddelan dderbyn gwobr

Lefel Efydd gan yr elusen amgylcheddol

A Rocha. Mae'r elusen yn cynnal cynllun g

wobrwyo (lefel Aur, Arian ac Efydd) gan

gofnodi faint mae eglwysi unigol yn dwyn i ystyriaeth yr amgylchedd a

chynladwyedd.



Sul y Pasg: Bydd ein gwasanaeth am **9.30yb**, ac mae croeso mawr i unrhyw un ddod. Buasen ni wrth ein bodd tasech chi'n medru gwisgo rhywbeth arbennig er mwyn dathlu'r Pasg. Ond, yn amlwg os ydy hi'n well gennych chi beidio, buasen ni'n dal wrth ein bodd tasech chi'n mynychu! Bydd y paned arferol ar gael ar ôl y gwasanaeth ynghyd ag Wyau Pasg bach ar gyfer plant a phobl o bob oedran!

Yn ogystal â'n dathliadau ar y Sul, bydd Eglwys Sant Gwyddelan ar agor ar

ddydd Llun y Pasg a byddwn yn cynnig **Te hufen** o **2.00** tan **5.00yp**

Hefyd bydd un neu ddau weithgaredd celf a chreffft arbennig i blant yn yr

Eglwys yn ystod yr amser yma.

Ar ail **Benwythnos Gŵyl y Banc mis Mai**, rydym yn trefnu **Digwyddiad Celf** yn

Eglwys Sant Gwyddelan ar y nos Sul o **5.00** tan **7.00yh**, a thrwy'r dydd ar y

dydd Llun o **10.00** tan **4.00yp**. Bydd arddangosfa a chasgliad o waith celf amrywiol. Bydd rhai ar werth a rhai eraill ar arddangos yn unig i bobl fedru eu mwynhau. Ar y nos Sul bydd digwyddiad "Bwrw Golwg Breifat". Bydd cyfle

ichi brynu tocynnau ymlaen llaw a mwynhau gwin a byrbrydau yn yr Eglwys. Bydd croeso i bawb ymweld â'r arddangosfa ar **Ddydd Llun y Banc**. Bydd

paned a chacen ac ati ar gael yn ystod y dydd. Hefyd bydd arddangosfa

peintio byr rhywbryd yn ystod y dydd ac rydym yn gobeithio cynnal

cystadleuaeth peintio i blant yr ysgol leol.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf.

Os hoffech chi gyfrannu unrhyw beth at **Gylchlythyr Dolwyddelan**,

neu os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu sylwadau ynghylch beth hoffech chi ei weld yn y cylchlythyr, cysylltwch gyda ni.

Dewch ag unrhyw beth draw i'r Pafiliwn er sylw Shaun Hewitt neu anfonwch E-bost at: shaunhewitt@me.com

Dyddiad cau unrhyw gynnwys ar gyfer Cylchlythyr yr Haf (mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst) ydy dydd Gwener, Mai'r 12fed.